Ysgol Tregarth

Hapus yn ein Dysgu

**Gair o'r dosbarth/A word from the class.**

Croeso i ddosbarth Ogwen, sydd eleni yn gartref i ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 o dan ofal Mr Carwyn Roberts. Yn yr hanner tymor cyntaf, ein thema fydd Cwpan Rygbi'r Byd, fydd yn canolbwyntio ar bynciau megis iechyd a lles, diwylliant y gwledydd sy'n cymryd rhan, cymharu'r gwledydd gyda Chymru a chysylltu gyda phobl fydd yn mynd draw i Japan i wylio'r gemau. Os oes gan rywun ohonoch arbenigedd yn y meysydd yma, neu'n gwybod am rywun allai fod o gymorth sydd â chysylltiad gydag un o'r gwledydd efallai, cysylltwch â Mr Roberts. Byddem yn ddiolchgar am unrhyw fewnbwn i'n dysgu.

Mae cynllun ar gyfer clywed llais y rhieni wedi ei rannu allan sy'n gofyn am syniadau chi a'ch plentyn ynglŷn â'r thema cwpan rygbi'r byd draw yn Japan. Gwerthfawrogwn unrhyw syniadau neu weithgareddau.

Bydd eich plentyn yn cael sesiwn addysg gorfforol gyda Mr Carwyn Roberts bob prynhawn dydd Iau, ac mae'n angenrheidiol cael dillad addas (siorts, crys T a trainers) i newid iddynt er mwyn gallu cymryd rhan. Yn ystod yr hanner tymor cyntaf, rygbi a dawns fydd prif ffocws y gwersi addysg gorfforol.

Bydd gwaith cartref yn cael ei osod bob hanner tymor sy'n ymwneud a'r thema. Bydd tri neu bedwar tasg/prosiect gwahanol yn cael eu rhannu allan a modd i'ch plentyn ddewis pa dasg i gwblhau dros yr hanner tymor. Bydd hi'n bosib cwblhau mwy na un dasg os dymunir. Cofiwch fod darllen a'ch plentyn yn hollbwysig ac angen sylw dyddiol. Ceisiwch wrando ar eich plant yn darllen Cymraeg a Saesneg yn gyson. Yn ogystal, mae'n hanfodol ymarfer eu tablau yn gyson yn ystod yr wythnos os gwelwch yn dda.

*Welcome to Ogwen class, which is home to pupils in Year 3 and 4 this year, under the care of Mr Carwyn Roberts. During the first half term our theme is the Rugby World Cup, which concentrates on subjects such as health and well-being, the countries' culture, comparing the different countries with Wales and contact people that'll be attending the world cup. If any parents specialise in these areas, or know of someone who does, and who could help us in our learning, then please contact Mr Roberts. We would welcome any input or support.*

*Your child will have Physical Education sessions, taught by Mr Carwyn Roberts every Thursday afternoon, and it is crucial that they have suitable clothing (shorts, T shirt, and trainers) to change into in order to take part in these sessions. Main focus of the lessons of this half term will be rugby and dance.*

*Homework with be set every half term. There will be 3 to 4 different tasks/projects associated with the theme, and your child will be allowed to choose any task to complete, completing more than one if they wish. Remember it's important to read with your child on a daily basis. Try and listen to your child reading English and Welsh regularly. Also, it's vital that they practice their times tables as often as possible please.*